


Hawdd ei Ddeall



Gofynnwch am Hawdd ei Ddeall

Mae'r canllaw yma yn dweud wrthy'ch chi beth ydy Hawdd ei Ddeall a sut i ofyn amdano



Gan Hawdd ei Ddeall Cymru

Beth sydd yn y llyfryn yma

Beth ydy Hawdd ei Ddeall?.....	3
Pam mae Hawdd ei Ddeall yn bwysig?	6
Beth sydd yn gwneud Hawdd ei Ddeall yn haws?	7
Sut i ofyn am Hawdd ei Ddeall.....	9
Lle i ofyn am Hawdd ei Ddeall.....	10
Pa fath o Hawdd ei Ddeall rydych chi'n gallu ei gael.....	12
Dysgu mwy	14

Beth ydy Hawdd ei Ddeall?

Weithiau, mae'n anodd darllen gwybodaeth.
Weithiau oherwydd:



- Mae'r geiriau'n rhy anodd.



- Mae'r testun yn rhy fach.



- Mae gormod o wybodaeth.



Hawdd ei Ddeall ydy'r wybodaeth sydd wedi cael ei ysgrifennu i fod yn haws ei ddeall.

Mae Hawdd ei Ddeall yn gallu helpu pawb, ond mae'n ddefnyddiol iawn i bobl sydd:



- Yn cael trafferth darllen.



- Yn cael geiriau hir neu galed yn anodd.



- Yn cael trafferth gyda gormod o eiriau ar unwaith.



- Angen lluniau i'w helpu i ddeall.



- Yn dysgu Cymraeg.



- Yn cael problemau cof.



- Yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio.

Pam mae Hawdd ei Ddeall yn bwysig?



Mae'r gyfraith yn dweud bod gennych chi hawl i wybodaeth rydych chi'n gallu ei deall.

Pan fyddwch chi yn deall gwybodaeth, fe fydd yn eich helpu i:



- byw bywyd annibynnol



- gwneud eich dewisiadau eich hun



- dweud eich dweud



- cymryd rhan yn eich cymuned.

Beth sydd yn gwneud Hawdd ei Ddeall yn haws?

Mae Hawdd ei Ddeall yn:



- Defnyddio geiriau syml cymaint â phosibl.




- Dweud beth mae geiriau anodd yn feddwl.



- Defnyddio brawddegau byr.




- Yn cynnwys lluniau i helpu i esbonio syniadau.



- Torri gwybodaeth yn rhannau llai.



- Defnyddio maint ffont mawr.



- Yn gadael lle, felly dydy'r dudalen ddim yn rhy llawn.



Dyma beth rydych chi'n gofyn amdano pan fyddwch chi'n gofyn am Hawdd ei Ddeall.

Sut i ofyn am Hawdd ei Ddeall



Os ydy gwybodaeth yn anodd ei ddarllen neu ei ddeall, rydych chi'n gallu gofyn am Hawdd ei Ddeall. I ofyn am Hawdd ei Ddeall:




- Cysylltwch â'r sefydliad neu'r gwasanaeth. Dros y ffôn, e-bost neu yn bersonol.



- Dywedwch wrthyn nhw fod eu gwybodaeth yn anodd i chi ei darllen.



- Gofynnwch am y wybodaeth yn Hawdd ei Ddeall.



- Dywedwch wrthyn nhw pa wybodaeth rydych chi ei hangen.



- Gofynnwch pryd y byddwch chi'n ei gael.

Lle i ofyn am Hawdd ei Ddeall

Rydych chi'n gallu gofyn am Hawdd ei Ddeall o leoedd fel:



- Eich meddyg neu'r ysbyty.



- Y cyngor.



- Cymdeithasau tai.



- Eich banc.



- Gwasanaethau cymorth.



- Cwmnïau trydan, nwy neu ddŵr.



- Yr heddlu neu'r gwasanaethau tân.




- Llyfrgelloedd.

Pa fath o Hawdd ei Ddeall rydych chi'n gallu ei gael

Mae gwybodaeth Hawdd ei Ddeall yn gallu bod yn:



- Tafleuni.



- Llyfrynnau.



- Llythyrau.



- E-byst.



- Ffurflenni.



- Gwefannau.

Dysgu mwy



Os ydych chi eisiau dysgu mwy am Hawdd ei Ddeall, ewch i www.ldw.org.uk/cy/hawdd-ei-ddeall-cymru

Mae dogfennau Hawdd ei Ddeall ar gael am ddim ar-lein yma:



Anabledd Dysgu Cymru
www.ldw.org.uk/cy/resources



GIG Cymru
<https://111.wales.nhs.uk/easyreads/default.aspx?locale=cy>



Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y canllaw yma i helpu i wneud gwybodaeth yn glir i bawb.



Os oes gennych chi syniadau ar gyfer Hawdd ei Ddeall rydych chi ei angen, rhowch wybod i ni. Rydyn ni'n gallu eich helpu i ddod o hyd i wybodaeth Hawdd ei Ddeall. Neu efallai fe fyddwn ni yn ei wneud i chi:



E-bost: easyread@ldw.org.uk



Ffôn: 029 2068 1160



Mae [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, ewch i <https://bit.ly/48roo5u>.

[Rhif trwydded Photosymbols 403527247](#)

Hawdd ei Ddeall

Gan Hawdd ei Ddeall Cymru